# Y CABINET DYDD MAWRTH, 11 GORFFENNAF 2023

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Elin Walker Jones, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Sector Cynradd) a Huw Llwyd Rowlands (Aelod Lleol). |
| Eitem 8 | Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Priffyrdd, Peirianneg ac YGC). |
| Eitem 9 | Aled Gibbard ( Uwch Reolwr Gweithredol Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd – Adnoddau Gofal). |
| Eitem 10 | Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dafydd Meurig.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Menna Trenholme ar gyfer Eitem 6, gan ei bod yn lywodraethwr yn Ysgol Bontnewydd. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 fel rhai cywir.

**6. CYHOEDDI RHYBUDD STATUDOL AR Y CYNNIG I GAU YSGOL FELINWNDA AR 31 RHAGFYR 2023, A'R DISGYBLION PRESENNOL I DROSGLWYDDO I YSGOL AMGEN CYFAGOS SEF YSGOL BONTNEWYDD NEU YSGOL LLANDWROG, YN UNOL Â DEWIS RHIENI, O 1 IONAWR 2024.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown.

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd cychwyn y broses i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 o dan Adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013.

2. Cymeradwywyd cyhoeddi rhybudd statudol, ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

3. Cymeradwywyd trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion hynny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

4. Yn amodol ar benderfyniad y Cabinet ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda, caniatáu cynnal adolygiad o ffiniau dalgylch ysgolion sy'n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd mai Ysgol Felinwnda yw'r ysgol gynradd leiaf yn y Sir, gyda niferoedd disgyblion yn gostwng yn gyson. Amcanwyd i'r niferoedd o ddisgyblion barhau i ostwng yn y blynyddoedd i ddod.

Manylwyd mai 8 disgybl sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd ac mae Adran 48(3) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn nodi y gall awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefnau i gau'r ysgol os oes llai na 10 disgybl cofrestredig.

Eglurwyd bod cyfnod o wrthwynebiad i'r cynnig o gau'r ysgol ac bydd angen penderfyniad pellach gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023, sef diwedd y cyfnod hwn.

Cadarnhawyd bod cost y pen Ysgol Felinwnda ar gyfer darparu addysg deirgwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol. Esboniwyd mai'r cyfartaledd sirol yw £4,509 tra mai cost y pen ar gyfer 2022-2023 yn Ysgol Felinwnda oedd £14,643.

Gwerthuswyd tair opsiwn ar gyfer yr Ysgol gan gynnwys:

1. Gwneud dim i adfer y sefyllfa
2. Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
3. Cau'r ysgol a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol amgen cyfagos.

Nodwyd bod y trydydd opsiwn uchod wedi cael ei ddewis fel yr un mwyaf ffafriol oherwydd ei fod yn datrys heriau niferoedd isel, dosbarthiadau bychan a chostau uchel.

Sicrhawyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda staff yr ysgol er mwyn trafod dyfodol eu cyflogaeth. Eglurwyd bydd gwaith yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2024 er mwyn diwygio ardaloedd dalgylchoedd cyfagos.

Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn deall y penderfyniad i gau'r Ysgol ond ei fod yn ddigwyddiad trist i'r gymuned gan fod yr ysgol yn 128 oed. Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried y pwyntiau canlynol wrth drafod y mater hwn:

- Bod blaenoriaeth yn cael ei roi i Ysgol Llandwrog wrth ystyried dalgylchoedd oherwydd bod y ddwy ysgol yn rhannu pennaeth a ethos tebyg.
- Dyfodol sefydliadau megis canolfan y pentref a grŵp meithrin.
- Bod unrhyw wrthwynebiad yn cael ystyriaeth teilwng.
- Bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r gymuned pan yn ail osod ffiniau dalgylch, er mwyn i'r gymuned cael lleisio barn.

Mynegwyd balchder am strategaeth addysg newydd sy'n ffocysu ar demograffeg cymuned addysg wledig yng Nghymru.

Diolchwyd i'r gymuned gyfan am eu adborth a mewnbwn drwy gydol y cyfnod ymgysylltu.

## 7. ADRODDLIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2022-23.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn 2022-23.

**TRAFODAETH**

Esboniwyd bod yr adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar waith y Panel yn unol â'r dyletswydd i ddarparu adroddiad blynyddol i'r Cabinet oddi fewn eu cylch gorchwyl.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan fel cyn-gadeirydd y Panel a'r holl swyddogion am eu gwaith.

Adroddwyd bod cynnydd i'w weld yn niferoedd cyfeiriadau a dderbyniwyd yn dilyn y Pandemig. Esboniwyd bod tua 5000 o geisiadau wedi eu derbyn yn flynyddol cyn Covid-19 ond mae'r ffigwr hwn bellach wedi cynyddu i 7,175 yn y flwyddyn 2022-23.

Nodwyd bod 281 o blant mewn gofal erbyn diwedd y flwyddyn 2022-23 a manylwyd bod y ffigwr hwn yn uwch na beth welwyd mewn blynyddoedd diweddar oherwydd bod y Cyngor yn cynorthwyo ffoaduriaid o'r Wcrain – ac felly'n derbyn mwy o gyfeiriadau gan y swyddfa gartref.

Mynegwyd balchder bod 95% o ymholiadau cychwynnol i atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod er bod cynnydd wedi'i weld yn niferoedd yr adroddiadau yn y flwyddyn ddiwethaf.

Datganwyd pryder am y gwasanaeth DoLS (trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid), gan fod rhai unigolion ar y rhestr aros am hyd at 3 mlynedd. Eglurwyd bod pedair gwaith yn fwy o achosion angen cael eu delio gyda nhw na gellir ymdopi â nhw ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd bod pob unigolion sy'n disgwyl am y gwasanaeth hon yn aros mewn lleoliad diogel ac mae gwaith parhaus i ddiwygio'r rhestr aros yn unol ag asesiadau risg yn digwydd fel rhan o waith y gwasanaethau.

Adroddwyd y cynhaliwyd Arolwg Blynyddol Diogelu gan y Swyddog Arweiniol Dynedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg ym Mawrth 2023 gan nodi:

- Bod 87% o'r Prif Bersonau Diogelu mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Bod 70% o Lywodraethwyr Dynodedig ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd ddiwethaf,
- Bod 97% o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf,
- Bod 100% o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yn ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

Derbyniwyd achrediad Rhuban Gwyn sy'n cydnabod ymdrech y Cyngor i godi ymwybyddiaeth am atal trais yn y cartref . Trafodwyd mai yn y gorffennol, merched sydd yn dioddef y mwyaf o drais yn y cartref ond cydnabuwyd bod dynion hefyd yn gallu dioddef yn ogystal a phawb arall yn y gymdeithas LDHT+.

Cadarnhawyd bod cynnydd o 14.7% mewn achosion o droseddau drwy ddwyn a thybiwyd bod hyn o ganlyniad i'r argyfwng costau byw diweddar.

Esboniwyd bod rhwydwaith effeithiol o bartneriaethau yn gweithio ar y maes heriol hwn. Nodiwyd bod un bartneriaeth yn digwydd o fewn Gwynedd ac Ynys Môn ble mae'r Awdurdodau Lleol yn cydweithio'n agos gyda'r heddlu ac arbenigwyr. Ymhelaethwyd bod y bartneriaeth hon yn cydweithio gyda phartneriaeth Gogledd Cymru er mwyn rhannu arferion da a derbyn cyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol.

Diolchwyd i'r holl staff sy'n gweithio o fewn y maes heriol hwn ac gyda'r gwaith diweddar o groesawu ffoaduriaid o Wcrain.

## 8. MABWYSIADU LLAWLYFR CYNNAL PRIFFYRDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones.

### PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Llawlyfr Cynnal Priffyrdd sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

### TRAFODAETH

Eglurwyd byddai mabwysiadu'r llawlyfr hwn yn diwygio'r ffordd o ymateb i dyllau mwyaf yn y ffyrdd yn ogystal â diwygio'r broses o flaenoriaethu ail wynebu ffyrdd.

Adroddwyd bod gan Wynedd 2720 cilomedr o rwydwaith ffyrdd ar hyd y Sir i'w cynnal. Manylwyd bod 1300 cilomedr o'r ffyrdd hyn yn rhai di-ddosbarth, sef y ffyrdd hanfodol yng nghefn gwlad y Sir. Nodwyd bod gwaith cynnal a chadw yn cynnwys ail-wynebu, goleuo, arwyddion, torri gwair, paentio a diogelwch y gaeaf.

Esboniwyd bod y gyllideb i gynnal priffyrdd tua £6miliwn y flwyddyn a nodwyd bod gwaith cynnal a chadw dros dymor y gaeaf fel arfer yn costio oddeutu £1miliwn o'r gyllideb hwn.

Nodwyd bod gan Cyngor Gwynedd gynllun cynnal asedau priffyrdd yn barod. Adolygwyd y ddogfen hon er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r adran yn cyd-fynd ag cod ymarfer diweddaraf.

Cadarnhawyd mai'r ddau brif newid oedd adolygu hierarchaeth rhwydwaith ffyrdd newydd a newid cyfnod ymateb diffygion diogelwch o 24 awr i ddiwedd y diwrnod gwaith canlynol. Eglurwyd bod y newidiadau hyn wedi cael eu gosod er mwyn sicrhau bod y ffyrdd cywir yn cael blaenoriaeth teilwng ac bod modd rhaglennu gwaith yn effeithiol. Pwysleisiwyd os oes diffygion yn cael eu codi ar ddydd gwener, bod cymal wedi ei osod yn y llawlyfr priffyrdd i alluogi'r adran i weithredu ar benwythnosau os bydd angen.

Soniwyd bydd yr adran yn defnyddio risg er mwyn dyrannu'r gyllideb. Sicrhawyd bydd cyllideb refeniw craidd yn cael eu dyrannu ar ran ardaloedd. Er hyn, nodwyd bydd cyllideb prosiectau mawr megis ail wynebu yn cael eu dyrannu yn unol â risg.

Canmolwyd y gwaith a gwblhawyd gan swyddogion yr adran yn y maes hwn.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Walker Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nodwyd bod Cynllun Grŵp Tai Bychan a Chynllun Awtistiaeth wedi cael eu nodi fel prosiectau blaenoriaeth yr adran o fewn Cynllun y Cyngor. Eglurwyd bod y rhain yn mynd i'r afael â phrif risgiau'r adran.

Cadarnhawyd mai nod Cynllun Grŵp Tai Bychan yw gwella profiadau'r plant sydd yng ngofal y Cyngor sydd ag anghenion dwys a chymhleth. Eglurwyd bod y plant hyn yn gorfod gadael y Sir ar hyn o bryd er mwyn derbyn darpariaeth addas ond mae'r adran yn gobeithio datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgol leol a chymryd rhan yn ein cymunedau. Cadarnhawyd bod yr adran yn cydweithio gydag Adran Tai ac Eiddo i adnabod adeiladau addas i'w ystyried cyn penodi Rheolwr Prosiect a diogelu buddsoddiad ariannol.

Soniwyd bod y Cynllun Awtistiaeth bellach yn ei ail flwyddyn, gyda rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i weithwyr, er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn derbyn cefnogaeth arbenigol angenrheidiol. Nodwyd bod y prosiect hwn yn cael ei redeg ar y cyd gydag Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Tynnwyd sylw at nifer o faterion sy'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn peri pryder ac yn effeithio ar berfformiad gwasanaethau, gan gynnwys:

- Capasiti Gweithlu – mae'r adran wedi cychwyn ymgyrchoedd recriwtio.
- Y galw am y math o gefnogaeth - mae anghenion plant yn gymhleth ac yn dwysau ac felly mae angen pecyn cefnogaeth eang, gynhwysfawr ac arbenigol.
- Nodwyd bod niferoedd sy'n cysylltu am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn parhau i fod yn sylweddol uwch na cyn y pandemig.
- Bod yr adran yn rhan o ymgyrch Maethu Cymru i ddenu mwy o bobl i feddwl am faethu.

Cadarnhawyd bod yr adran wedi gwireddu eu cynigion gwerth £44,010 o arbedion ar gyfer y flwyddyn 2023-24. Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi derbyn bid un-tro o £130,000 er mwyn cyflogi 3 ymarferydd gofal cymdeithasol.

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cadarnhawyd bod cais cynllunio Dolfeurig wedi ei gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol fel rhan o gefnogaeth Ataliol yn Lleol. Nodwyd bod gweithgareddau ymgysylltu wedi cael eu cynnal yn lleol i'r ardal a bod yr adran wedi derbyn ymatebion positif iawn ar y cyfan gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn ogystal â staff a thrigolion yr ardal. Pwysleisiwyd bod adnodd ar lefel rheolwr er mwyn sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys yn effeithiol wrth ddatblygu gwasanaethu o'r math hwn ar draws y sir.

Cyfeiriwyd at waith sydd wedi ei gwblhau i'r wefan er mwyn ei ailwampio, diweddaru a'i symleiddio er mwyn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth yn cael ei ganfod yn hawdd. Gobeithiwyd i'r wefan hon mynd yn fyw ym mis Medi.

Atgoffwyd yr aelodau bod gwaith wedi ei gychwyn i dderbyn achrediad 'Cymuned Oed Gyfeillgar' gyda chefnogaeth y Cabinet a gobeithir rhoi rhaglen waith yn ei le yn fuan.

Yn anffodus, cadarnhawyd bod oedi sylweddol wedi bod ar waith adeiladu unedau byw'n annibynnol ar safle Fron Deg, Pwllheli, ond mae'r adran wedi bod mewn trafodaethau gydag Adra er mwyn trafod materion ymhellach.

Nodwyd bod cynlluniau i ddatblygu opsiynau llety addas i unigolion gydag anableddau dysgu yn mynd ymlaen yn llwyddiannus. Bwriedir ehangu'r prosiect yma yn Llŷn ac Meirionnydd yn y dyfodol.

Eglurwyd bod gwaith o baratoi at drawsnewid digidol erbyn 2025 yn mynd ymlaen yn dda. Ymhelaethwyd bod yr adran wedi peilota technoleg amgen penodol am y tro cyntaf yng Ngwynedd drwy brofi offer teleofal newydd a fydd ar gael erbyn 2025.

Adroddwyd bod uned Dementia yn Llan Ffestiniog yn parhau ar gau oherwydd problemau recriwtio. Nodwyd hefyd bod arafwch ar waith adeiladu ar brosiectau eraill o fewn y maes ac mae'r adran mewn cyswllt gydag Adran Tai ac Eiddo er mwyn deall y rhwystrau maent yn ei wynebu.

Cadarnhawyd bod achos busnes strategol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn cadarnhad o'u cyfraniad tuag at y cynllun arloesol ym Mhenyberth ger Pwllheli. Nodwyd bod yr adran wedi bod mewn cyfarfodydd gyda grwpiau sy'n gwrthwynebu rhai rhannau o'r cynllun yn ogystal â mynychu cyfarfod Pwyllgor Ardal Dwyfor er mwyn rhannu gwybodaeth gydag aelodau.

Adroddwyd bod recriwtio yn parhau i fod yn heriol. Er hyn, cadarnhawyd bod y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain grŵp tasg a gorffen i edrych ar opsiynau'n ymwneud â chyflogau proffesiynol yn y maes.

Tynnwyd sylw at nifer o faterion sy'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn peri pryder ac yn effeithio ar berfformiad amrywiol gwasanaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaeth Pobl Hyn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd – mae rhestrau aros sylweddol ar gyfer derbyn asesiad therapi galwedigaethol, ac bod 42 unigolyn ar y rhestr aros am fwy na 90 diwrnod. Pwysleisiwyd bod achosion yn cael eu blaenoriaethu ar sail risg.
- Gofal cartref - bod cwymp yng nghanran o oriau sydd heb eu diwallu. Nodwyd bod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir ond mae'r rhestr aros yn parhau'n uchel.
- Diogelu oedolion – bod dirywiad yn y nifer o achosion ble mae ymholiadau wedi eu cwblhau o fewn y 7 diwrnod gwaith statudol.
- Cartrefi preswyl - bod cyfraf llenwi gwelyau mewnol yn parhau i beri pryder. Adroddwyd mai 80% o'r gwelyau oedd yn cael eu defnyddio ym mis Ebrill 2023 ac mae hynny oherwydd nid oes digon o staff er mwyn derbyn mwy o gleifion.

Cadarnhawyd bod yr adran wedi gorwario £3.9miliwn yn y flwyddyn 2022-23. Eglurwyd bod adolygiad gyllidol cyntaf 2023-24 yn digwydd yn ystod mis Awst 2023 a pwysleisiwyd bod rhagolygon yr adran ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn parhau i fod yn heriol.

Nodwyd bod yr adran wedi derbyn grant RIF (Cronfa Integreiddio Rhanbarthol) gan Lywodraeth Cymru ac mae'r grant hwn wedi cael ei ymrwymo am 3-5 mlynedd. Nodwyd bod yr arian hwn yn cael ei fuddsoddi i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ar y cyd â'r Bwrdd iechyd a phartneriaethau. Eglurwyd bod yr adran yn edrych ymlaen at gynllunio sut bydd y grant hwn yn cael ei ddefnyddio dros y blynyddoedd nesaf.

Diolchwyd i holl staff yr adran a'r partneriaethau angenrheidiol am eu gwaith caled o fewn y maes heriol hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:35pm

**CADEIRYDD**